Cenwch i'r Arglwydd

Caneuon Ffydd: Rhif 37

Cenwch i'r Arglwydd,
cenwch i'r Arglwydd,
Iôr ein hymwared ni yw;
aed yn beraidd hyd y nef
aberth moliant iddo ef,
bendigedig fo'r Arglwydd, ein Duw.

Moeswch i'r Arglwydd,
moeswch i'r Arglwydd,
moeswch ogoniant a nerth;
o'u caethiwed, rhoed yn rhydd
fyrdd o etifeddion ffydd,
mawl i enw Preswylydd y berth.

Molwch yr Arglwydd,
molwch yr Arglwydd,
molwch yr Arglwydd, ei saint;
wrth ffynhonnau'r dyfroedd byw
gorfoledded meibion Duw,
byddant hyfryd yng ngwynfyd eu braint.

Dychwel i'w Seion,
dychwel i'w Seion
dyrfa aneirif ryw ddydd;
bydd llawenydd ar eu pen,
ac o flaen yr orsedd wen
Halelwia dragwyddol a fydd.

GWILI, 1872–1936

MYFYRDOD

Mae gan addoliad Beiblaidd nifer o wahanol agweddau arno, ac fe gyfleir llawer o'r amrywiaeth hwnnw yn emyn mawl Gwili, neu John Jenkins, yma. Mae ôl llaw y Gair, a'r Salmau yn enwedig, yn yr emyn cyfoethog hwn. Ceir gorchmynion o'r Salmau, rhesymau dros foli Duw o'r Salmau, ac addewidion hefyd o'r Salmau. Mae'r emyn, yn wir, yn cynnwys llawer o'r hyn sydd yn gwneud Llyfr y Salmau mor arbennig inni fel credinwyr.

Rhoddodd Llyfr y Salmau gyfrwng i'r Israeliaid gael moliannu Duw, Sanct Israel. Yr enw Hebraeg ar Lyfr y Salmau yw *Tehillim*, sef, o'i gyfieithu'n llythrennol, Llyfr Mawl. Hwn oedd y llyfr emynau a ddefnyddid ar gyfer addoliad yn y deml. Gellir gweddïo'r Salmau, wrth gwrs, neu eu hadrodd, ond fe'u cyfansoddwyd nhw'n benodol er mwyn eu canu ac maen nhw'n gyfrwng mynegiant i galonnau parod gael datgan eu mawl i Sanct Israel.

Ceir digon o alwadau i ganu i'r Arglwydd yn Llyfr y Salmau,

sydd yn ein hatgoffa eto mai er mwyn eu canu y cyfansoddwyd nhw: 'Cenwch i'r Arglwydd ei saint ef', Salm 30:4 (BWM); ond nid unrhyw fath o ganu 'chwaith: 'Cenwch iddo ganiad newydd, cenwch yn gerddgar, yn soniarus', yw'r cymhelliad yn Salm 33:3 er enghraifft. Cawn wybod gan Gwili mai hwn yw ein haberth i fod i'r Arglwydd: 'aberth moliant iddo ef' (Salm 107:22).

Daw'r alwad wedyn 'Moeswch i'r Arglwydd', neu i roi gwrogaeth iddo, yn uniongyrchol o Salm 29 lle mae Gwili wedi mydryddu llawer o gynnwys yr adnodau cyntaf yn y Salm yn ei bennill yma. Cawn reswm arall yn y Salm hon dros addoli Duw a rhoi gogoniant iddo, sef oherwydd *ei enw*: 'Mawl i enw Preswylydd y berth', meddai Gwili wedyn. Mae Duw wedi mynnu ei ddatguddio'i hun inni. Nid cyfarch rhyw 'fod mawr', fel y dywed rhai, a wnawn wrth addoli ein Duw ni, gan y gwyddom ei enw, ac mae gwybod enw rhywun yn gallu trawsnewid ein perthynas ni â nhw. Gwnaed yr enw hwn yn hysbys i Moses ger y berth oedd yn llosgi pan gyhoeddodd Duw wrtho mai 'Ydwyf yr hyn ydwyf'. Cymerodd Iesu yr enw rhyfeddol hwn yr oedd Duw wedi ei alw ei hun ac fe'i cysylltodd â phethau pob dydd y gallwn eu deall pan ddywedodd 'Ydwyf' neu 'Myfi yw'r drws' (Ioan 10:9); 'Myfi yw goleuni'r byd (Ioan 8:12); 'Myfi yw'r ffordd, a'r gwirionedd a'r bywyd' (Ioan 14:6). Daeth enw Duw yn fwy personol fyth yn enw Iesu ei Fab a ddaeth yn un ohonom ac a'i rhoddodd ei hun drosom ar y groes.

Gweddïa'r emynydd am lwyddiant i'r rhai sydd yn moliannu'r Arglwydd erbyn ei bennill olaf – y bydd yn 'dychwel i'w Seion dyrfa aneirif ryw ddydd' a'r rheiny yn cael mynegi yng ngeiriau'r Salmydd eto, fel y 'llanwyd ein genau â chwerthin a'n tafod â chanu' (Salm 126:1–2).

GWEDDI

Diolch iti, Arglwydd, fod moliant y Beibl mor llawn o amrywiaeth, o ganu ac o lawenydd. Diolch iti hefyd am gael dy adnabod trwy gyfrwng dy enw sydd, nid yn unig yn mynegi inni dy ogoniant a'th nerth, ond hefyd dy ffyddlondeb a'th gariad a'th drugaredd. Clod a mawl a fo i'th enw hyd byth. Amen.